

Adroddiad Arolygu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Yr Adran Radiotherapi, Canolfan
Ganser Felindre, Ymddiriedolaeth
GIG Prifysgol Felindre

Dyddiad yr arolygiad: 10 ac 11 Mai 2023

Dyddiad cyhoeddi: 11 Awst 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	25
4. Y camau nesaf	31
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	32
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	33
Atodiad C - Cynllun gwella	34

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Adran Radiotherapi yng Nghanolfan Ganser Felindre, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar 10 ac 11 Mai 2023. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ystyried y ffordd roedd yr adran yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC, Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a Gwyddonydd Diogelu rhag Ymbelydredd Arbenigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalmwr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 42 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalmwr a chwblhawyd 94 gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau o fynychu'r Adran Radiotherapi yn yr ysbyty. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr hoffent mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Gwelsom fod y staff yn gwrtais wrth ymdrin â'r cleifion a'u bod yn gwneud ymdrech i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Gwelsom hefyd fod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu i'r cleifion mewn ffordd a oedd yn amddiffyn ac yn hyrwyddo eu hawlau.

Dim ond yn Saesneg roedd y wybodaeth a oedd ar gael yn yr adran yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd gan yr Ymddiriedolaeth wefan lle gallai cleifion â mynediad ddod o hyd i wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i adolygu'r ardal a ddefnyddir ar gyfer Bracitherapi er mwyn pennu a ellir gwneud newidiadau pellach i'r amgylchedd er mwyn helpu i hybu urddas a phreifatrwydd y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddodd y cleifion adborth a sylwadau cadarnhaol iawn am y gwasanaeth roeddent wedi'i gael.
- Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn ffordd gwrtais.
- Ar y cyfan, roedd yr amgylchedd a'r dodrefn yn yr adran mewn cyflwr da, gan ddarparu amgylchedd dymunol ar gyfer y cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd lefelau cydymffurfiaeth da iawn â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion hefyd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adlewyrchu'r canllawiau atgyfeirio ar gyfer yr amrywiaeth o gysylltiadau meddygol a gyflawnir yn yr adran yn well yn y protocolau ar y cyd, gan ystyried canllawiau perthnasol.
- Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer treialon ymchwil yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 yn well yn y ddogfen Radiotherapi.
- Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos y rhesymeg pan wneir penderfyniad i ohirio gwiriadau blynyddol o gyfarpar.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y dogfennau a ddarparwyd i AGIC fel rhan o'r arolygiad yn dangos dealltwriaeth dda o ofynion y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Cafodd trefniadau da iawn eu disgrifio a'u dangos mewn perthynas â rheoli cysylltiadau meddygol damweiniol ac anfwriadol
- Cafodd trefniadau da iawn eu disgrifio ar gyfer optimeiddio Tomograffeg Gyfrifiadurol (CT) a Thomograffeg Gyfrifiadurol Pelydr Côn (CBCT).
- Gwelsom fod dewis cleifion yn cael ei hyrwyddo o ran y defnydd o fasgiau a chyfarpar diogelu personol arall mewn perthynas â COVID-19.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth y GIG oedd y cyflogwr dynodedig o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a chafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u dangos. Roedd trefniadau interim ar waith ar gyfer dwy swydd rheoli allweddol.

Rhoddodd y staff adborth cymysg ar weithio i'r sefydliad.

Gwelsom fod cofnodion hyfforddiant mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn gyflawn ac yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, dangosodd dogfennaeth a welsom nad oedd yr holl Oncolegwyr Clinigol wedi cadarnhau eu bod wedi darllen gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr.

Roedd trefniadau addas ar waith i'r cleifion a'u gofalwyr roi adborth ar eu profiadau. Fodd bynnag, dangosodd adborth gan y cleifion nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn bob amser.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r sylwadau llai ffafriol gan y staff a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn
- Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i recriwtio i'r rolau Arweinydd Clinigol, Arweinydd Proffesiynol a Rheolwr a Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Radiotherapi
- Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod Oncolegwyr Clinigol wedi darllen gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr
- Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella ymwybyddiaeth y staff o'r system ar gyfer ceisio adborth cleifion
- Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella swm y wybodaeth a gaiff ei harddangos neu sydd ar gael, fel bod y cleifion yn gwybod sut i wneud cwyn ac yn ymwybodol o sefydliadau eraill y gallant gysylltu â nhw am gymorth a chynghor.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dangosodd y tîm rheoli ymrwymiad i ddysgu o ganfyddiadau arolygiad AGIC ac i wella lle bo angen
- Roedd y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth da ac roeddent yn canolbwyntio ar y claf.
- Roedd lefelau cydymffurfiaeth da â hyfforddiant gorfodol gan y staff ac roedd cofnodion hyfforddiant mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn gyflawn ac yn gynhwysfawr.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd drwy holiaduron AGIC yn gadarnhaol ym mhob maes a ystyriwyd, gyda phob ymatebydd (42/42) yn dweud bod y gwasanaeth yn ‘dda iawn’ neu'n ‘dda’.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff yn groesawgar, yn llawen ac yn rhoi tawelwch meddwl. Mae'r staff yn amyneddgar ac yn garedig. Mae'r lleoliad yn ddymunol ac yn addas i ddefnyddwyr.”

“Gofal a chymorth o'r radd flaenaf ym mhob agwedd. Mae'n gaffaeliad i'r GIG.”

“Mae pob aelod o'r staff (gan gynnwys y menywod yn y dderbynfa) yn creu awyrgylch sy'n gwneud cleifion (sy'n newydd i driniaeth yn aml neu mewn trallod oherwydd eu sefyllfa) yn gartrefol ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt. Mae hyn yn annog y cleifion i siarad â'i gilydd, cynnig cyngor calonogol ac ati.

Mae pob gweithred amyneddgar neu garedig yn cael effaith fuddiol yn rhywle i lawr y ffordd. Canmoladwy.”

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r lleoliad lle caiff y driniaeth ei chynnal yn ddiflas iawn, nid yw wedi'i baentio'n ddel fel y coridorau neu'r toiledau ac ati. Mae lliw yr ystafelloedd radiotherapi yn felyn iawn ac wedi dirywio sy'n gwneud y profiad ychydig yn ddiflas ar adegau.”

“...Y GYNAU. Nid yw'r rhain yn ffitio o gwbl. Rwyf wedi bodloni ar wisgo fest, sy'n llawer haws. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn llawer rhy fach.”

“Byddai'n ddefnyddiol deall sut mae'r driniaeth yn gweithio'n fanylach, a chael rhagor o fanylion am y sgil-ffeithiau a gofal ar ôl y driniaeth. Mae'r broses adolygu dros y ffôn yn iawn, ond byddai cyfarfod wyneb yn wyneb wedi bod yn well. Ni chaiff oedi cyn triniaethau ei esbonio rhyw lawer ac mae hyn yn effeithio ar waith paratoi cyn cael triniaeth.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth o daflenni wedi'u harddangos yn y prif ystafelloedd aros i gleifion a'u gofalwyr. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig am y gwahanol fathau o ganser a thriniaethau canser. Roeddent hefyd yn darparu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael.

Roedd gwybodaeth i gleifion a'u gofalwyr, gan gynnwys beth i'w ddisgwyl pan oeddent yn mynd i'r Adran Radiotherapi, ar gael ar wefan ar Ymddiriedolaeth hefyd. Roedd y wefan hefyd yn cynnwys dolenni i'r gwefannau a manylion cyswllt sefydliadau eraill sy'n cynhyrchu eu taflenni gwybodaeth eu hunain ac a all gynnig cymorth a chefnogaeth i bobl y mae canser yn effeithio arnynt.

Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y staff yn gwrtais wrth ymdrin â'r cleifion a'u bod yn gwneud ymdrech i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd ardaloedd aros bach ger yr ystafelloedd trin, a oedd yn cynnig mwy o breifatrwydd oddi wrth y brif ystafell aros. Roedd ystafelloedd newid unigol ar gael er mwyn rhoi preifatrwydd i'r cleifion pan oedd angen iddynt newid allan o'u dillad ar gyfer eu triniaeth. Gwelsom hefyd fod drysau'r ystafelloedd lle roedd triniaethau'n cael eu cynnal yn cael eu cau pan fyddent yn cael eu defnyddio.

Ar y cyfan, roedd yr amgylchedd yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Fodd bynnag, roedd yr ardal a ddefnyddir ar gyfer Bracitherapi yn peri cryn heriau i'r staff yn hyn o beth. Roedd y staff yn defnyddio sgriniau preifatrwydd ac yn cymryd gofal wrth drefnu apwyntiadau er mwyn helpu i liniaru'r heriau hyn.

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i adolygu'r ardal a ddefnyddir ar gyfer Bracitherapi er mwyn pennu a ellir gwneud newidiadau pellach i'r amgylchedd er mwyn helpu i hybu urddas a phreifatrwydd y cleifion.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC (42/42) wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch. Yn ogystal, teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (39/41) fod camau wedi cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Hefyd, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (38/42) wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff heb i gleifion eraill eu clywed.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC (82/93) wrthym fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal yn yr adran.

Gwelsom nad oedd ardal aros ddynodedig yn cael ei defnyddio ar gyfer plant a oedd yn ymweld â'r adran. Cawsom wybod nad oedd plant yn cael eu trin yn yr adran yn aml. Fodd bynnag, pan oedd plant yn cael triniaeth, dywedwyd wrthym y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i ddefnyddio ystafell drin ddynodedig, a bod tîm pediatrig ar gael i gynnig therapi chwarae a chymorth priodol.

Gofal wedi'i Deilwra at yr Unigolyn

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (39/42) a atebodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdany'n nhw eu hunain ar ôl eu triniaeth. Hefyd, dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (41/41) wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig am bwy i gysylltu â nhw i gael cyngor ar unrhyw ôl-ffeithiau yn dilyn eu triniaeth.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC (41/42) wrthym eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr hoffent mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC (91/93) wrthym fod y cleifion yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur (74/94) wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu rhoi i gleifion. Fodd bynnag, roedd y gweddill (20/94) yn anghytuno â hyn.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC (42/42) wrthym fod y staff wedi egluro'r hyn roeddent yn ei wneud, a bod y staff wedi gwrando arnynt ac ateb eu cwestiynau.

Amserol

Gofal Amserol

Dywedodd y staff wrthym y rhoddir gwybod i'r cleifion am oedi annisgwyl ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r cleifion yn cael gwybod ar lafar gan staff y dderbynfa. Hefyd, gwelsom fod sgrin fawr yn yr ardal aros yn cael ei defnyddio i roi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC (41/42) wrthym eu bod o'r farn bod yr amser aros rhwng atgyfeiriad a'u hapwyntiad yn rhesymol. Yn ogystal, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (39/42) wrthym eu bod yn cael gwybod pa mor hir y byddent yn debygol o orfod aros cyn cael eu gweld pan fyddant yn yr adran.

Disgrifiodd y staff drefniadau addas ar gyfer darparu triniaethau radiotherapi brys ar alw yn ystod penwythnosau a gwyliau cyhoeddus.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom arwyddion dwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg, yn cael eu harddangos yn yr adran. Hefyd, roedd symbolau wedi'u harddangos i roi gwybod i gleifion y gallant siarad â'r staff yn Gymraeg a gwelsom rai aelodau o'r staff yn gwisgo laniardau i ddangos i'r cleifion eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, dim ond yn Saesneg roedd taflenni gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a oedd ar gael yn yr adran yn gyffredinol. Roedd hyn yn golygu na allai rhai cleifion fod wedi gallu cael gafael ar y wybodaeth hon yn eu dewis iaith o bosibl.

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod taflenni gwybodaeth i gleifion yn yr adran ar gael yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill, gan ystyried anghenion y cleifion.

Roedd poster i wedi'u harddangos yn rhoi gwybod i'r cleifion sy'n feichiog, neu a allai fod yn feichiog, y dylent hysbysu'r staff cyn cael triniaeth. Roedd y wybodaeth hon ar gael mewn sawl iaith.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu defnyddio gwasanaeth cyfieithu, pe bai angen, er mwyn helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu mamiaith.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC mai Saesneg yw eu dewis iaith.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC wrthym nad oeddent yn siarad Cymraeg (29/86). Dywedodd llai na hanner y staff a ddywedodd wrthym eu bod yn siarad Cymraeg (3/7) eu bod yn gwisgo bathodyn neu laniard i ddangos i'r cleifion eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Dangosodd ymatebion i holiadur AGIC nad oedd y staff bob amser yn gofyn i'r cleifion nodi eu dewis iaith, gyda'r rhan fwyaf yn dweud eu bod yn holi'r cleifion weithiau (4/7) neu ddim o gwbl (2/7). Roedd hyn yn golygu efallai na fyddai'r cleifion wedi gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i annog y staff hynny sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodyn neu laniard addas er mwyn dangos i'r cleifion eu bod yn hapus cyfathrebu yn Gymraeg a'r camau a gymerwyd i ofyn i'r cleifion gadarnhau eu dewis iaith yn gyson.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod gofal a thriniaeth yn yr adran yn cael eu darparu mewn ffordd a oedd yn amddiffyn ac yn hyrwyddo hawliau'r cleifion.

Cawsom wybod bod hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol yr Ymddiriedolaeth i'r staff. Dangosodd data a ddarparwyd i AGIC gydymffurfiaeth dda gan y staff â hyfforddiant o'r fath.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (34/41) yn holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir. Dywedodd yr ymatebwyr eraill wrthym na allent wneud hyn (6/41) neu ei bod yn well ganddynt beidio â dweud (1/41).

Dywedodd pob ymatebydd a gwblhaodd holiadur (42/42) wrthym nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth radiotherapi.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiynau yn yr holiadur wrthym fod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth (77/85), bod gan y staff fynediad teg a chyfartal at gyfleoedd yn y gweithle (69/84) ac nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith (78/83). Fodd bynnag, roedd staff a oedd yn anghytuno â'r rhain neu roedd yn well ganddynt beidio â dweud.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Dyletswyddau'r Cyflogwr: Sefydlu Gweithdrefnau, Protocolau a Rhaglenni Sicrhau Ansawdd Cyffredinol

Gweithdrefnau a Phrotocolau

Roedd y cyflogwr wedi sefydlu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd y rhain yn dangos dealltwriaeth glir o'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Gwnaethom argymhell y dylid ystyried rhesymoli'r systemau a'r gweithdrefnau ysgrifenedig a ddefnyddir i reoli dogfennaeth er mwyn osgoi dyblygu dogfennau yn ddiangen a symleiddio'r casgliad o ddogfennau a ddefnyddir yn yr adran.

Disgrifiwyd trefniadau addas i sicrhau ansawdd gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig a ddefnyddir yn yr adran. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys proses ar gyfer datblygu ac adolygu dogfennau ysgrifenedig, amllder y cytunwyd arno ar gyfer adolygu a system ar gyfer rhannu newidiadau â staff perthnasol. Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig addas yn hyn o beth.

Roedd y sampl o weithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig a welsom yn dangos y trefniadau uchod, ac roedd eu statws yn glir. Fodd bynnag, nodwyd bod dyddiad adolygu dwy ddogfen a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth gyfan wedi mynd heibio. Gwnaethom dynnu sylw'r uwch-aelodau o'r staff at hyn, a gytunodd i gadarnhau a oedd angen y rhain o hyd o ystyried y gweithdrefnau ysgrifenedig eraill sydd ar waith. Ymdriniwyd â hyn cyn diwedd yr arolygiad.

Canllawiau Atgyfeirio

Roedd y cyflogwr wedi sefydlu canllawiau atgyfeirio a disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer sicrhau bod y rhain ar gael i unigolion sydd wedi cael hawliau fel atgyfeirwyr.

Fodd bynnag, roeddem yn teimlo y gallai'r amrywiaeth o gysylltiadau a gaiff eu cyflawni yn yr adran gael eu hadlewyrchu'n well yn y protocolau clinigol ar y cyd. Gwnaethom argymhell y dylid diwygio'r dogfennau hyn ac y dylid ystyried y canllawiau a nodir yn 'Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations:

Implications for clinical practice in radiotherapy, Guidance from the Radiotherapy Board'¹.

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adlewyrchu'r canllawiau atgyfeirio ar gyfer yr amrywiaeth o gysylltiadau meddygol a gyflawnir yn yr adran yn well yn y protocolau ar y cyd, gan ystyried canllawiau perthnasol.

Gwnaethom hefyd argymhell y gellid cyfeirio at y canllawiau atgyfeirio yn y protocolau clinigol ar y cyd o dan yr adran Atgyfeirio yn y ddogfen drosfwaol, mewn perthynas â radiotherapi yn benodol, gan ddisgrifio'r ffordd y mae'r adran yn rhoi'r gofynion o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017² ar waith.

Lefelau Cyfeirio Diagnostig

Nid yw lefelau cyfeirio diagnostig yn ofyniad ar gyfer cysylltiadau radiotherapiwtig.

Ymchwil Feddygol

Dywedwyd wrthym fod yr adran yn cymryd rhan mewn ymchwil sy'n ymwneud â chysylltiadau meddygol. Roedd y trefniadau ar gyfer hyn wedi'u nodi mewn dogfen drosfwaol.

Roedd y ffurflen hunanasesu wedi'i chwblhau yn disgrifio trefniadau llywodraethu addas ar gyfer treialon ymchwil, y broses ar gyfer rheoli cysylltiadau ymchwil a'r mesurau sydd ar waith i sicrhau y cedwir at gyfyngiadau dosau. Fodd bynnag, roeddem yn teimlo y gellid adlewyrchu'r rhain yn well yn y ddogfen drosfwaol.

Gwnaethom argymhell y dylid diwygio'r ddogfen hon ac y dylid ystyried y canllawiau a nodir yn 'Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations: Implications for clinical practice in radiotherapy, Guidance from the Radiotherapy Board'.

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer treialon ymchwil yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 yn well yn y ddogfen Radiotherapi.

¹ <https://www.rcr.ac.uk/sites/default/files/guidance-on-irmer-implications-for-clinical-practice-in-radiotherapy.pdf>

² Ymddiriedolaeth y GIG Felindre - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 mewn Radiotherapi

Hefyd, efallai yr hoffai'r cyflogwr ddatblygu gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr penodol yn hyn o beth er mwyn ategu'r ddogfen drosfwaol.

Hawliau

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig addas ar waith gan y cyflogwr i nodi unigolion sydd â hawl i fod yn atgyfeiriwr, yn ymarferydd neu'n weithredwr o fewn maes ymarfer penodedig. Roedd hon yn disgrifio'n glir fod y dasg o roi hawl i unigolion wedi'i dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Meddygol a oedd, yn ei dro, yn dirprwyo awdurdod i'r rheolwyr adrannol neu arweinwyr gwasanaethau.

Cyfeiriwyd at hawliau yn y ddogfen drosfwaol hefyd, mewn perthynas â radiotherapi yn benodol.

Roedd hawliau Oncolegwyr Clinigol wedi'u disgrifio'n dda yn y ffurflen hunanasesu a gwelwyd tystiolaeth o hyn ar y safle yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, roeddem yn teimlo y gellid adlewyrchu'r ymarfer hwn yn well yng ngweithdrefnau'r cyflogwr lleol.

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adlewyrchu hawliau Oncolegwyr Clinigol yn well yng ngweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr lleol.

Gwelsom fod hawliau wedi'u cofnodi ar ddogfen matrices. Roedd hyn yn nodi hawliau pob unigolyn yn glir.

Adnabod Cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas ar waith i adnabod yr unigolyn a fyddai'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio yn gywir.

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr yn ymdrin yn glir â'r sefyllfaoedd hynny lle roedd mwy nag un gweithredwr yn ymwneud â'r cysylltiad a lle na allai unigolion ddweud pwy oeddent yn llawn o bosibl.

Gwnaethom edrych ar y ddogfennaeth atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer dau glaf. Roedd y rhain yn cynnwys tystiolaeth bod y staff wedi cwblhau gwiriad adnabod yn unol â gweithdrefn y cyflogwr.

Roedd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall y weithdrefn ar gyfer adnabod cleifion yn glir.

Nodwyd hefyd fod dyddiad adolygu polisi adnabod cleifion (Green 68) a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth gyfan wedi mynd heibio. Gwnaethom dynnu sylw'r uwch-aelodau o'r staff at hyn, a gytunodd i gadarnhau a oedd angen y polisi hwn o hyd o

ystyried y weithdrefn ysgrifenedig arall sydd ar waith. Ymdriniwyd â hyn cyn diwedd yr arolygiad.

Unigolion o Oedran Beichiogi (Holi am Feichiogrwydd)

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas ar gyfer gwneud ymholiadau mewn perthynas ag unigolion o oedran beichiogi i nodi a yw'r unigolyn yn feichiog neu'n bwydo ar y fron neu a allai hynny fod yn bosibl.

Roedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn y weithdrefn ysgrifenedig yn ystyried amrywiaeth sbectwm rhywedd y boblogaeth. Yn ogystal, roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn cynnwys cyfeiriad at 'Inclusive pregnancy status guidelines for ionising radiation: Diagnostic and therapeutic exposures'³.

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr yn ymdrin yn glir â'r sefyllfa lle na allai'r unigolyn ymateb i'r ymholiad am feichiogrwydd o bosibl.

Roedd y sampl o ddogfennaeth atgyfeirio a thriniaeth a welsom yn dangos bod gweithredwyr wedi holi ynghylch statws beichiogrwydd unigolion yn unol â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr.

Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r camau y byddent yn eu cymryd er mwyn holi am statws beichiogrwydd unigolion. Roedd hyn yn gyson â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr.

Manteision a Risgiau

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer rhoi gwybodaeth ddigonol i gleifion am fanteision cael y cysylltiad a'r risgiau sy'n gysylltiedig â dos ymbelydredd. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael y wybodaeth hon yn ystod trafodaethau fel rhan o'r broses cydsynio i driniaeth.

Rhodddwyd taflenni gwybodaeth ysgrifenedig i'r cleifion i helpu i gefnogi'r trafodaethau hyn, ac roedd copi o'r ffurflen gydsynio ysgrifenedig ar gael i'r cleifion hefyd.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC (42/42) eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision eu triniaeth.

Gwerthusiadau Clinigol

³ https://www.sor.org/getmedia/1d256f96-40cb-4eeb-b120-90fe27daf7e9/Inclusive-Pregnancy-Status-Guidelines-for-Ionising-Radiation_LLv2

Roedd gweithdrefnau ysgrifenedig addas ar waith gan y cyflogwr ar gyfer gwerthuso pob cysylltiad a gyflawnir ar y camau cynllunio, dilysu a thrin o lwybr gofal y claf, mewn perthynas â radiotherapi.

Nodwyd bod polisi ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gyfan mewn perthynas â chynnal gwerthusiad clinigol o gysylltiad meddygol (Green 48), ond bod ei ddyddiad adolygu wedi mynd heibio. Gwnaethom dynnu sylw'r uwch-aelodau o'r staff at hyn, a gytunodd i gadarnhau a oedd angen y polisi hwn o hyd o ystyried y gweithdrefnau ysgrifenedig eraill sydd ar waith. Ymdriniwyd â hyn cyn diwedd yr arolygiad.

Cysylltiadau â Delweddu Anfeddygol

Roedd gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr yn nodi'n glir nad oedd cysylltiadau â delweddu anfeddygol yn cael eu cyflawni yn yr adran.

Dyletswyddau'r Cyflogwr - Archwiliad Clinigol

Dywedwyd wrthym fod adran yng Nghanolfan Ganser Felindre sy'n arbenigo ym maes archwilio clinigol.

Cawsom enghreifftiau o archwiliadau clinigol a oedd wedi cael eu cynnal a gwelsom fod dull gweithredu amlasiantaeth wedi cael ei ddefnyddio. Nodwyd bod yr arfer hon yn ganmoladwy. Roedd rhaglen archwilio clinigol ar waith.

Pan ofynnwyd sut roedd canlyniadau'r archwiliadau clinigol wedi dylanwadu ar ymarfer neu ei newid, cawsom enghraifft gadarnhaol mewn perthynas â thriniaeth radiotherapi corff abladol stereotactig ar gyfer prostad oligometastatig.

Dyletswyddau'r Cyflogwr - Cysylltiadau Damweiniol neu Anfwriadol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas ar waith ar gyfer adrodd ar gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sy'n ymwneud ag ymbelydredd, eu cofnodi, ymchwilio iddynt a'u dadansoddi. Roedd y weithdrefn hon yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau unigolion yn glir ynghyd â'r trothwyon a oedd yn nodi pan oedd angen adrodd ar ddigwyddiadau o'r fath. Roedd y trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r claf wedi'u disgrifio'n dda yn y weithdrefn ysgrifenedig hefyd.

Nodwyd arferion canmoladwy mewn perthynas â rheoli cysylltiadau meddygol damweiniol ac anfwriadol. Roedd hyn yn ymestyn i astudio cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiynau yn holiadur AGIC wrthym fod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau (86/87), yn trin staff sy'n gysylltiedig â digwyddiadau yn deg (68/85), yn cymryd camau i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto

(76/87) ac yn rhoi adborth i staff am newidiadau a wnaed mewn ymateb i ddigwyddiadau (73/87).

Dyletswyddau'r Ymarferydd, y Gweithredwr a'r Atgyfeiriwr

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 yn dda. Fodd bynnag, dangosodd dogfennaeth a welsom nad oedd yr holl Oncolegwyr Clinigol wedi cadarnhau eu bod wedi darllen gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn gwbl sicr bod y grŵp hwn o staff yn ymwybodol o weithdrefnau ysgrifenedig cywir y cyflogwr yr oedd angen iddynt eu dilyn.

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod Oncolegwyr Clinigol wedi darllen gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr sy'n berthnasol i'w rolau.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig addas ar waith ar gyfer rheoli atgyfeiriadau i'r adran. Hefyd, disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff broses addas ar gyfer atgyfeirio i'r adran. Disgrifiwyd prosesau addas ar gyfer blaenoriaethu a chanslo atgyfeiriadau hefyd.

Gwelsom fod system atgyfeirio electronig ar waith a bod hyn yn cynnwys meysydd gorfodol i'w cwblhau, a oedd yn sicrhau bod dogfennaeth atgyfeirio wedi'i chwblhau cyn i'r adran ei derbyn.

Gwnaethom adolygu cofnodion atgyfeirio dau glaf a gwelsom fod y rhain wedi cael eu cwblhau'n llawn ac yn unol â'r canllawiau atgyfeirio sefydledig. Disgrifiodd yr uwch-aelodau o'r staff drefniadau addas ar gyfer cynnal archwiliadau'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a gwnaethant rannu tair enghraifft a oedd yn dangos y broses archwilio.

Cyfiawnhad dros Gysylltiadau Unigol

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi pob cysylltiad a gyflawnir ar y camau cynllunio ac ailgynllunio, dilysu a thrin o lwybr gofal y claf mewn perthynas â radiotherapi. Roedd gweithdrefn a phrotocolau ysgrifenedig addas ar waith gan y cyflogwr hefyd mewn perthynas â chyfiawnhau.

Roedd y sampl o ddogfennaeth atgyfeirio a welsom yn dangos bod y cysylltiad wedi'i gyfiawnhau gan yr ymarferydd, gan ei fod wedi llofnodi'r ffurflen.

Optimeiddio

Roedd gweithdrefn a phrotocolau ysgrifenedig addas ar waith gan y cyflogwr mewn perthynas ag optimeiddio cysylltiadau a gyflawnir ar gyfer cynllunio triniaeth, a

dilysu lleoliad at ddibenion triniaeth radiotherapi a monitro. Roedd y rhain yn cynnwys optimeiddio cysylltiadau i blant, cysylltiadau sy'n ymwneud â dosau uchel ac i unigolion lle na ellid bod yn siŵr nad ydynt yn feichiog.

Nodwyd arferion canmoladwy mewn perthynas ag optimeiddio cysylltiadau o sganiau CT a CBCT. Roedd yr adran wedi cymhwyso lefelau cyfeirio dosau cenedlaethol i'w protocolau sganio CT ac roeddent wedi datblygu lefelau cyfeirio dosau lleol ar gyfer protocolau sganio CBCT a ddefnyddir yn gyffredin.

Disgrifiwyd trefniadau addas i gynnwys Arbenigwr Ffiseg Feddygol wrth optimeiddio cysylltiadau.

Pediatreg

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer trin cleifion pediatrig. Dywedwyd wrthym fod protocolau ysgrifenedig penodol ar waith ar gyfer trin plant.

Dywedwyd wrthym y byddai cynlluniau triniaeth yn cael eu trafod â'r Oncolegydd Clinigol ar y cam cynllunio triniaeth.

Gofalwyr neu Gysurwyr

Roedd y rheolau lleol yn cynnwys datganiad i adlewyrchu'r ffaith na chaniateir i ofalwyr neu gysurwyr aros gyda chleifion yn ystod unrhyw gysylltiadau meddygol. Dylid cynnwys hyn yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiwygio gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr er mwyn dangos na chaniateir i ofalwyr neu gysurwyr aros gyda chleifion yn ystod unrhyw gysylltiadau meddygol.

Cyngor Arbenigol

Gwnaethom gadarnhau bod y cyflogwr wedi penodi arbenigwyr ffiseg feddygol ac wedi rhoi'r hawl iddynt roi cyngor ar faterion diogelu rhag ymbelydredd a chydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd gan bob arbenigwr ffiseg feddygol faes ymarfer penodol.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff drefniadau addas ar gyfer cynnwys yr arbenigwyr ffiseg feddygol mewn cysylltiadau meddygol a oedd yn cael eu cynnal yn yr adran ac iddynt roi cyngor arnynt, a gwelsom enghreifftiau o'r trefniadau hynny.

Cyfarpar: Dyletswyddau Cyffredinol y Cyflogwr

Roedd gan y cyflogwr raglen sicrhau ansawdd mewn perthynas â'r cyfarpar a ddefnyddir yn yr adran. Gwelsom fod gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn cynnwys y systemau cynllunio triniaeth a rheoli gweithrediadau. Nodwyd bod yr arfer hon yn ganmoladwy.

Gwnaethom edrych ar yr atodlen sicrhau ansawdd ar gyfer y cyfarpar, a gwelsom fod hon yn gyfredol ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y gwiriadau blynyddol ar gyfer dau ddarn o gyfarpar wedi cael eu cofnodi ar y system cofnodion electronig. Cadarnhaodd y staff fod y gwiriadau hyn wedi cael eu cwblhau ond nad oedd y system wedi cael ei diweddaru. Yn ogystal, nid oedd y cofnod yn dangos y rhesymeg ar gyfer y penderfyniad a wnaed i ohirio gwiriadau yn ddiogel er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth radiotherapi.

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiweddaru'r system electronig mewn da bryd pan fydd gwiriadau cyfarpar wedi'u cwblhau a dangos y rhesymeg pan wneir penderfyniad i ohirio gwiriadau blynyddol o gyfarpar.

Gwnaethom gadarnhau bod trefniadau addas ar waith gan y cyflogwr i wella cyfarpar annigonol neu ddiffygiol. Roedd hyn yn cynnwys proses ar gyfer nodi diffygion mewn perthynas â'r cyfarpar, rhoi gwybod amdanynt a'u huwchgyfeirio i uwch-aelodau o'r staff ac ar gyfer cymryd camau cywirol, gan gynnwys rhoi'r gorau i ddefnyddio'r cyfarpar.

Disgrifiwyd proses addas ar gyfer asesu dosau cleifion ar ôl pob cysylltiad a gyflawnir ar y camau cynllunio, dilysu a thrin o lwybr gofal y claf mewn perthynas â radiotherapi.

Roedd rhestr gyfredol o gyfarpar ar gael, ac roedd hon yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Diogel

Rheoli Risg

Ar y cyfan, roedd yr amgylchedd yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai rhannau o'r llawr yn y coridorau yn amlwg wedi'u difrodi neu wedi treulio. Gall hyn achosi perygl baglu.

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i drwsio'r rhannau o'r llawr sy'n amlwg wedi'u difrodi neu wedi treulio ac sy'n peri perygl, neu osod llawr newydd yn eu lle.

Ni wnaethom nodi unrhyw beryglon amlwg eraill i iechyd a diogelwch y staff sy'n gweithio yn yr adran nac i'r cleifion neu unigolion eraill sy'n ymweld â'r adran.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC (64/93) wrthym eu bod yn fodlon ar yr ymdrechion a wnaed gan eu sefydliad i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel.

Roedd arwyddion ar gyfer yr adran o brif fynedfa'r ysbyty ac ar y cyfan, roedd yr arwyddion yn hawdd i'w dilyn. Roedd arwyddion ar gyfer ail fynedfa ddynodedig i'r adran hefyd. Roedd yr adran ar y llawr gwaelod a oedd yn golygu ei bod yn hygyrch i gleifion a oedd yn defnyddio prif fynedfa'r ysbyty a mynedfa'r adran.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur (39/42) wrthym y gallent ddod o hyd i'r adran yn hawdd. Fodd bynnag, dywedodd rhai (3/42) na allent ddod o hyd iddi'n hawdd.

Gwelsom fod yr ardaloedd aros o faint addas, a bod digon o seddi ar gael ar gyfer nifer y cleifion sy'n mynychu'r adran. Gwelsom fod cadeiriau o uchderau amrywiol ar gael hefyd, a bod gan rai freichiau. Nodwyd bod hyn yn arfer dda gan ei fod yn golygu eu bod yn cynnig mwy o gysur i gleifion o bosibl a'u bod hefyd yn ei gwneud hi'n haws i gleifion â namau symudedd eistedd a chodi oddi ar eu heistedd.

Gwelsom arwyddion clir yn hysbysu'r cleifion ac ymwelwyr na ddylid mynd i mewn i'r ardaloedd a reolir pan oedd triniaeth radiotherapi yn cael ei darparu.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd pob rhan o'r adran a welsom yn lân ac yn daclus yr olwg ac roedd y cyfarpar a welsom hefyd yn lân.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ac roedd gorsafoedd diheintio dwylo ym mhob rhan o'r adran. Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio.

Ar adeg ein harolygiad, cawsom wybod nad oedd rhagofalon cyffredinol, a oedd ar waith yn flaenorol i leihau lledaeniad COVID-19, yn orfodol bellach a'u bod wedi'u dileu. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod masgiau wyneb ar gael i'r staff a'r cleifion o hyd os oeddent yn dymuno parhau i'w gwisgo yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau. Gwelsom fod y rhain ar gael yn hawdd, ynghyd â hylif diheintio dwylo, wrth brif fynedfa'r adran. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'n ofynnol i'r staff gymryd rhagofalon i leihau lledaeniad COVID-19 a heintiau eraill o hyd wrth drin cleifion yr amheuir bod ganddynt haint neu gleifion sy'n gallu dal heintiau yn hawdd.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC (35/42) wrthym eu bod yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau, megis staff yn gwisgo masgiau a staff yn golchi eu dwylo, yn cael eu dilyn. Dywedodd yr ymatebwyr eraill

wrthym fod mesurau yn cael eu dilyn weithiau/yn rhannol (6/42) neu nad oeddent yn cael eu dilyn (1/42). Cafwyd ymatebion tebyg ynghylch glendid yr adran. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (35/42) yn teimlo bod yr adran yn lân iawn, a'r gweddill yn teimlo bod yr adran yn eithaf glân (6/42) neu ddim yn lân iawn (1/32).

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd y cwestiynau yn holiadur AGIC wrthym fod polisi rheoli heintiau effeithiol ar waith yn eu sefydliad (81/86), bod amserlen lanhau effeithiol ar waith (73/87), bod PPE priodol yn cael ei ddarparu a'i ddefnyddio (85/86) a bod yr amgylchedd yn golygu y gellir rheoli heintiau yn effeithiol (76/87).

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol yr Ymddiriedolaeth i'r staff. Dangosodd data a ddarparwyd i AGIC gydymffurfiaeth dda iawn gan y staff â'r hyfforddiant hwn.

Diogelu Plant a Diogelu Oedolion

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau diogelu'r Ymddiriedolaeth a ble i gael gfael arnynt. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn gallu disgrifio'r camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryder diogelu.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant Diogelu yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol yr Ymddiriedolaeth i'r staff. Dangosodd data a ddarparwyd i AGIC gydymffurfiaeth dda gan y staff â'r hyfforddiant hwn.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiynau yn holiadur AGIC (81/87) wrthym y byddent yn gwybod sut i roi gwybod am bryder ynghylch arferion anniogel ac y byddent yn teimlo'n hyderus yn gwneud hynny (66/87). Fodd bynnag, cafwyd ymatebion mwy cymysg pan ofynnwyd a oeddent yn teimlo'n hyderus y byddai'r sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon, gydag ychydig llai na hanner (40/87) yn dweud wrthym eu bod yn hyderus a'r gweddill yn dweud nad oeddent yn hyderus (27/87) neu nad oeddent yn gwybod (20/87).

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi sicrwydd i'r staff y bydd y sefydliad yn ymdrin â'r pryderon a godir ganddynt am arferion anniogel.

Effeithiol

Cadw Cofnodion

Roedd gan y sampl o gofnodion atgyfeirio a thriniaeth a welsom gynllun clir ac roeddent wedi cael eu cwblhau'n llawn.

Dangosodd y cofnodion dystiolaeth fod y staff wedi dilyn gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr, megis y rhai mewn perthynas â gwiriadau adnabod cleifion a chadarnhau statws beichiogrwydd.

Effeithlon

Effeithlon

Dyweddodd yr uwch-aelodau o'r staff fod llwybrau gofal cleifion yn cael eu hadolygu'n barhaus fel rhan o broses gwella ac effeithlonrwydd gwasanaethau.

Dyweddwyd wrthym hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo i fireinio nifer y systemau cynllunio a thrin sy'n cael eu defnyddio, er mwyn gwneud y dull gweithredu'n fwy cyson a gwneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon.

Ar adeg ein harolygiad, roedd gwaith yn mynd rhagddo ar adran radiotherapi newydd fel rhan o'r cynllun i ddatblygu gwasanaethau canser yn Ne-ddwyrain Cymru. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cynnig cyfle i ddarparu'r gwasanaeth radiotherapi mewn ffordd fwy effeithlon. Hefyd, dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod wedi bod yn rhan o'r gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau ar gyfer yr adran newydd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Ymatebion cymysg a gafwyd drwy holiaduron AGIC. Er y byddai dros hanner y staff yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio, ychydig o staff oedd yn teimlo bod digon o staff yno er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith yn iawn.

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r sylwadau llai ffafrïol gan y staff a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

"Rydym yn ymdopi'n dda fel tîm er gwaethaf y pwysau o ran amser, y llwyth gwaith a'r prinder staff. Ond mae'r straen yn y gwaith yn cynyddu bob wythnos oherwydd nifer y cleifion a'r ffaith bod llai o staff a dim digon o sganwyr.

"Mae morâl y staff yn isel iawn ar hyn o bryd, ac mae sawl un yn cyrraedd pwynt lle mae pethau'n mynd yn ormod. Mae'r staff yn wynebu straen, pwysau a phryder difrifol gan fod problemau enfawr o ran capasiti ynghyd â phroblemau staffio. Nid yw'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd ac maent yn cael eu gwthio i'r eithaf er mwyn ateb y galw gan gleifion. Mae'r staff yn gweithio goramser yn rheolaidd i drin cleifion oherwydd bod oedi drwy'r dydd, gan arwain at fwy o flinder a straen i'r staff. Mae hyn yn cael effaith enfawr ar gydbwysedd bywyd/gwaith y staff hefyd..."

"Mae'r staff wir yn poeni am y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i'r cleifion ac maent bob amser yn ceisio mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau - gellir gweld hyn yn yr adborth y mae cleifion yn ei roi i ni ar lafar am eu triniaeth a'u gofal."

"Rwy'n meddwl bod tîm arwain/rheoli ein hadran ffiseg feddygol yn gryf iawn. Mae'r rheolwyr yn hawdd mynd atynt, mae'n hawdd cyfathrebu â nhw ac mae eu penderfyniadau yn deg. Rwy'n mwynhau gweithio yma ac rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi'n dda i wneud fy ngwaith. Serch hynny, rwy'n credu bod gan ein hadran ormod o waith ac mae hyn yn cynyddu straen y staff a gallai achosi risgiau/oedi i driniaeth y cleifion..."

"Nid yw'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Pan fydd angen newid rhywbeth, e.e. estyn diwrnodau gwaith oherwydd capasiti, awgrymir bod y staff yn cael eu cynnwys ond, yn y pen draw, nid ydynt yn gwrando arnom - mae'r tîm rheoli yn gwneud penderfyniadau heb boeni amdanom ac nid oes unrhyw empathi nac ystyriaeth o ran yr effaith y mae'n ei chael ar y staff..."

"Mae'n teimlo'n aml mai prif ffocws y sefydliad yw cyflawni targedau a nifer y cleifion heb ystyried yr effaith ar ofal y cleifion gan fod gwrthio capasiti yn arwain at brofiadau gwael i gleifion oherwydd bod amseroedd aros yn hir a pheiriannau yn torri."

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth y GIG oedd y cyflogwr dynodedig o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd yn meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau. Lle y bo'n briodol, roedd y cyflogwr wedi dirprwyo tasgau i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn yr Ymddiriedolaeth roi'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar waith.

Cyflwynodd uwch-aelodau o'r staff fanylion am strwythur y sefydliad. Cafodd llinellau adrodd a chyfrifoldebau clir o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) eu disgrifio a'u dangos.

Cafodd y ffurflen hunanasesu a gwblhawyd gan yr adran cyn yr arolygiad ei chyflwyno o fewn yr amserlen y cytunwyd arni ac roedd yn gynhwysfawr. Cymerodd pob aelod o'r staff ran lawn yn y broses arolygu a dangosodd y rheolwyr ymrwymiad i weithredu ar ganfyddiadau arolygiad AGIC, gan wneud gwelliannau lle bo angen.

Roedd y strwythur sefydliadol yn cynnwys Arweinydd Clinigol ac Arweinydd Proffesiynol, ond cawsom wybod bod y swyddi hyn yn wag ar adeg ein harolygiad. Yn ogystal, roedd trefniadau interim ar waith ar gyfer y Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi a'i Ddirprwy.

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i recriwtio i'r rolau Arweinydd Clinigol, Arweinydd Proffesiynol a Rheolwr a Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Radiotherapi.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff y trefniadau sydd ar waith i fonitro ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran ac i roi sicrwydd i'r Ymddiriedolaeth fel rhan o'r trefniadau llywodraethu a monitro.

Dywedodd dros hanner y staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC (55/93) wrthym y byddent yn argymhell eu sefydliad fel lle da i weithio ynddo. Dywedodd gweddill y staff na fyddent yn ei argymhell. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a atebodd y cwestiwn (57/93) wrthym fod eu sefydliad yn gefnogol, gyda'r gweddill (36/93) yn anghytuno â hyn.

Cafwyd ymatebion cymysg o ran a yw'r sefydliad yn cefnogi'r staff i nodi a datrys problemau, gyda thua hanner y staff a atebodd y cwestiwn (47/93) yn cytuno â hyn a'r gweddill yn anghytuno. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (59/92) a atebodd y cwestiwn wrthym nad oeddent yn cytuno bod eu sefydliad yn cymryd camau cyflym i wella, gydag ychydig o'r staff (33/92) yn cytuno.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC (74/93) wrthym mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth eu sefydliad, ond roedd y gweddill (19/93) yn anghytuno â hyn.

Pan ofynnwyd am eu rheolwr uniongyrchol, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC (61/89) wrthym y gellid dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith, ond roedd y gweddill yn anghytuno â hyn. Dywedodd dros hanner y staff a atebodd y cwestiwn (53/89) fod eu rheolwr yn rhoi adborth clir iddynt ar eu gwaith. Fodd bynnag, roedd y gweddill yn anghytuno. Dywedodd llai na hanner a atebodd y cwestiwn (43/89) wrthym fod eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu gwaith, gyda'r gweddill (46/89) yn anghytuno.

Pan ofynnwyd am uwch-reolwyr, dywedodd dros hanner y staff a atebodd y cwestiwn (49/89) eu bod yn teimlo eu bod yn weladwy. Hefyd, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym fod yr uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ofal cleifion. Fodd bynnag, ychydig o staff (33/88) oedd yn teimlo bod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd amrywiaeth o staff yn gweithio yn yr adran neu ar ei rhan ac roeddent yn cynnwys Oncolegwyr Clinigol, Cofrestryddion Oncoleg Glinigol, Radiograffwyr Ymgynghorol/Uwch-ymarfer, Radiograffwyr, Arbenigwyr Ffiseg Feddygol, Gwyddonwyr Clinigol, Dosimetryddion a Swyddogion Technegol Clinigol. Roedd yr adran yn darparu lleoliadau clinigol ar gyfer myfyrwyr Radiotherapi a Ffiseg Radiotherapi hefyd.

Roedd yn amlwg bod y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth da ac roeddent yn canolbwyntio ar y claf.

Nododd uwch-aelodau o'r staff fod rhai swyddi wedi bod yn wag am gyfnod hir ar adeg yr arolygiad mewn perthynas â staff Radiotherapi a Ffiseg, a byddai angen recriwtio ar gyfer y rhain er mwyn bodloni argymhellion a wnaed gan gyrff proffesiynol perthnasol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC wrthym nad oedd digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn (61/93), gydag ychydig dros hanner yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi â'r gofynion croes o ran eu hamser yn y gwaith (49/94). Er i'r rhan fwyaf o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC ddweud wrthym nad oedd eu swydd yn andwyol i'w hiechyd (56/88), roedd rhai a oedd yn anghytuno (32/88). Cafwyd ymatebion tebyg ynghylch gallu sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith a bod y sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant y staff. Roedd y mwyafrif o'r staff yn ymwybodol o'r cymorth lechyd Galwedigaethol a oedd ar gael iddynt (66/88).

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a atebodd y cwestiynau yn holiadur AGIC wrthym fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith (62/94) a'u bod yn gallu defnyddio systemau TGCh sydd eu hangen arnynt (68/93).

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant tri aelod o'r staff mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd y rhain yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant addas sy'n berthnasol i'w rolau deiliaid dyletswydd fel ymarferydd a gweithredwr, ac a oedd yn berthnasol i'w maes ymarfer penodol.

Roedd y cofnodion yn dangos tystiolaeth glir o asesu cymhwysedd, tystiolaeth o hawl a'u maes ymarfer. Hefyd, gwelsom fod system addas i nodi pan oedd adolygiadau wedi'u cynnal er mwyn ystyried newid ym maes ymarfer unigolyn neu cyn iddo ddefnyddio cyfarpar newydd.

Gwelsom fod dull gweithredu newydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cofnodi hyfforddiant arbenigwyr ffiseg feddygol mewn perthynas â Bracitherapi. Roedd y rhain yn amlinellu maes ymarfer unigolion yn glir, a dylid ystyried defnyddio'r dull gweithredu hwn ar gyfer timau eraill.

Gwnaethom edrych ar ddata a oedd yn dangos cydymffurfiaeth y staff â rhaglen hyfforddiant gorfodol yr Ymddiriedolaeth hefyd. Roedd disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rôl. Roedd y data yn dangos lefel dda o gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ymhlith y staff.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl (74/94). Atebodd y gweddill gan ddewis 'yn rhannol' (18/94) neu drwy ddweud wrthym nad oeddent wedi cael hyfforddiant priodol (2/94). Pan ofynnwyd iddynt pa hyfforddiant arall fyddai'n ddefnyddiol, roedd sylwadau'r staff yn cynnwys:

“Mae'r hyfforddiant penodol i'm rôl wedi bod yn ardderchog ac wedi fy mharatoi yn briodol. Fodd bynnag, hoffwn gael rhagor o hyfforddiant ar

wella ansawdd, cynllunio prosiectau ac arwain er mwyn fy ngalluogi i ddatblygu ymhellach.”

“Hyfforddiant yn y dyfodol ar ffurflenni'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar gyfer fy rôl.”

“Darparu hyfforddiant lleol ynghylch rheoli oedi gyda pheiriannau/cysur cleifion.”

“Diweddarau hyfforddiant ar ddatrys problemau delweddu, hyfforddiant tuag at wella gwasanaethau er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael triniaethau a thechnegau o'r ansawdd gorau.”

Roedd sylwadau eraill hefyd yn cynnwys:

“Byddai wedi bod yn fuddiol cael hyfforddiant gwell ynghylch y newidiadau TG newydd (y Cofnod Iechyd a Gofal Digidol a'r holl dasgau cysylltiedig) - rydym wedi gorfod cael hyfforddiant ychwanegol ar ôl eu cyflwyno. Mae gennym RayStation nawr hefyd - nid wyf wedi cael unrhyw hyfforddiant ar hwnnw o gwbl.”

“Byddai'n ddefnyddiol gallu neilltuo amser i gwblhau hyfforddiant. Fodd bynnag, oherwydd prinder staff a phroblemau difrifol o ran capasiti, nid yw'n bosibl cael eich rhyddhau i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant, DPP na sicrhau bod gofynion hyfforddiant gorfodol yn gyfredol ar hyn o bryd.”

“Byddai mwy o amser i hyfforddi fel tîm yn ddefnyddiol.”

Roedd y data a roddwyd i ni hefyd yn dangos bod y mwyafrif o'r staff wedi cael arfarniad o ran eu perfformiad yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (82/94) wrthym eu bod wedi cael arfarniad o'u gwaith hefyd.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Gwelsom bosteri â chod QR wedi'u harddangos mewn lleoedd amlwg yn yr adran.

Roedd y rhain yn galluogi cleifion â dyfeisiau symudol addas, megis ffonau symudol â chamêrau, i roi adborth neu wneud cwyn. Hefyd, gwelsom fod llechen electronig ar gael yn y brif ardal aros i'r cleifion ei defnyddio i roi adborth. Nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos am sefydliadau eraill y gall cleifion gysylltu â nhw i gael cymorth a chynghor ar wneud cwyn. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y wybodaeth hon ar gael ar gais.

Pan ofynnwyd a fyddent yn gwybod sut i gwyno, dywedodd 50% o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur (21/42) wrthym y byddent yn gwybod a dywedodd 50% wrthym na fyddent yn gwybod.

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella swm y wybodaeth a gaiff ei harddangos neu sydd ar gael, fel bod y cleifion yn gwybod sut i wneud cwyn ac yn ymwybodol o sefydliadau eraill y gallant gysylltu â nhw i gael cymorth a chynghor.

Roedd hysbysfwrdd 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' yn y brif ardal aros. Er mai'r bwriad yw i'r hysbysfwrdd hwn ddangos i gleifion ac ymwelwyr yr adborth a gafwyd a'r camau a gymerwyd gan yr adran mewn ymateb i hyn, roeddem yn teimlo bod y wybodaeth yn gyfyngedig yn hyn o beth.

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am bob cam a gymerwyd i wella'r wybodaeth sydd ar gael am y ffordd y mae'r adran wedi gweithredu ar adborth a gafwyd gan gleifion.

Pan ofynnwyd a yw adborth ar brofiad cleifion yn cael ei gasglu yn yr adran, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a atebodd y cwestiwn hwn yn holiadur AGIC (68/92) ei fod yn cael ei gasglu. Dywedodd y gweddill wrthym nad oedd adborth yn cael ei gasglu (2/92) neu nad oeddent yn gwybod (22/92). **Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella ymwybyddiaeth y staff o'r system ar gyfer ceisio adborth cleifion.**

Pan ofynnwyd a ydynt yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth cleifion, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a atebodd y cwestiwn eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd (59/92).

Roedd yr uwch-aelodau o'r staff yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Gonestrwydd a gwnaethant ddisgrifio newidiadau a wnaed i ffurflenni adrodd ar ddigwyddiadau er mwyn adlewyrchu gofynion y Ddyletswydd. Cawsom wybod bod sesiynau ymgysylltu ar gyfer y staff wedi cael eu cynnal a bod hyfforddiant wedi cael ei gyflwyno'n ddiweddar. Dywedwyd wrthym hefyd fod adnoddau i'r staff ar gael ar fewnwyd yr Ymddiriedolaeth.

Yn gyffredinol, roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Gonestrwydd a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi cael gwybodaeth am roi'r Ddyletswydd ar waith.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiynau yn holiadur AGIC wrthym eu bod yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd (77/81), eu bod yn deall eu rôl o ran cyrraedd y safonau cysylltiedig (73/79) a bod eu sefydliad yn eu hannog i fynegi pryderon a rhannu hyn â'r claf(72/81). Roedd y gweddill yn anghytuno.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Yr Adran Radiotherapi, Canolfan Ganser Felindre

Dyddiad yr arolygiad: 10 ac 11 Mai 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Yr Adran Radiotherapi, Canolfan Ganser Felindre

Dyddiad yr arolygiad: 10 ac 11 Mai 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i adolygu'r ardal a ddefnyddir ar gyfer Bracitherapi er mwyn pennu a ellir gwneud newidiadau pellach i'r amgylchedd er mwyn helpu i hybu urddas a phreifatrwydd y cleifion.	Safon - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Adolygiad amgylcheddol eisoes wedi'i gwblhau a phennwyd bod angen dull mynediad â chardiau llithro ar gyfer y drws	Rheolwr Seilwaith a Dylunio	31 Hydref 2023
		Bydd drysau newydd yn cael eu gosod o fewn 4-6 wythnos	Rheolwr Seilwaith a Dylunio	31 Hydref 2023
		Caniatadau rheoli mynediad i gael eu datblygu'n Weithdrefn Weithredu Safonol.	Rheolwr Seilwaith a Dylunio	31 Hydref 2023
		Gwybodaeth am y caniatadau rheoli mynediad diwygiedig i gael ei rhannu â staff Canolfan Ganser Felindre.	Rheolwr Seilwaith a Dylunio	31 Hydref 2023

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod taflenni gwybodaeth i gleifion yn yr adran ar gael yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill, gan ystyried anghenion y cleifion.	Safon - Teg	Mae Tîm Radiotherapi yr Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda Rhwydwaith Canser Cymru a'r canolfannau radiotherapi eraill yng Nghymru i adolygu'r taflenni gwybodaeth i gleifion sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gyda'r nod o leihau dyblygu, sicrhau cysondeb a sicrhau bod taflenni ar gael yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn ieithoedd craidd eraill yn unol ag anghenion y cleifion. Mae dadansoddiad o fylchau mewn perthynas â'r taflenni gwybodaeth sydd ar gael ac yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn mynd rhagddo.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda Rhwydwaith Canser Cymru ym mis Medi 2023 i adolygu gofynion y cleifion. 31 Ionawr 2024 - bydd gwybodaeth ddiwygiedig ar gael yn yr ieithoedd a nodwyd
Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol: • annog y staff hynny sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodyn neu laniard addas er mwyn dangos i'r cleifion eu	Safon - Teg	Ni chaniateir defnyddio laniardau mewn ardaloedd clinigol oherwydd y risg o haint. Tîm Cyfathrebu Corfforaethol i anfon negeseuon rheolaidd at bob aelod o'r staff i'w hatgoffa i wisgo bathodyn laith Gwaith os ydynt yn siarad Cymraeg ac yn	Swyddog y Gymraeg / Tîm Cyfathrebu Corfforaethol	Negeseuon cychwynnol ar 31 Gorffennaf 2023

bod yn hapus cyfathrebu yn Gymraeg gofyn i'r cleifion gadarnhau eu dewis iaith yn gyson.		gallu sgwrsio yn Gymraeg neu fathodyn dysgwr Cymraeg os ydynt yn dysgu Cymraeg.		
		Gwisgoedd â logo iaith Gwaith wedi'i frodio i gael eu harchebu a'u darparu i bob aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	31 Ionawr 2024
		Archwiliad llinell sylfaen i gael ei gynnal i asesu'r lefel bresennol o wybodaeth a gesglir am ddewis iaith, a chymau manwl i dargedu'r agwedd benodol ar lwybr y claf i ddilyn. Rhoi newidiadau ar waith yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad a chynnal adolygiad wedi hynny i sicrhau y gofynnir i'r cleifion gadarnhau eu dewis iaith.	Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Radiotherapi Arweinydd Oncoleg ar gyfer Radiotherapi	31 Ionawr 2024
		Ymchwilio i'r lleoliad mwyaf priodol ar y system wybodaeth i nodi dewis iaith.	Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Radiotherapi	30 Awst 2023

			Arweinydd Oncoleg Glinigol ar gyfer Radiotherapi Dirprwy Bennaeth Ffiseg Radiotherapi	
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adlewyrchu'r canllawiau atgyfeirio ar gyfer yr amrywiaeth o gysylltiadau meddygol a gyflawnir yn yr adran yn well yn y protocolau ar y cyd, gan ystyried canllawiau perthnasol.	Rheoliad 6 (5)(a) Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol)	Diweddaru'r holl brotocolau clinigol ar y cyd a diweddaru'r fformat fel ei fod yn fwy cyson â'r templed yn 'Ionising radiation Medical Exposure) Regulations: Implications for clinical practice in radiotherapy. Guidance from the radiotherapy board'. Gan ddechrau gyda'r protocol ar y cyd ar gyfer y fron er mwyn paratoi ar gyfer triniaeth ar Halcyon, yna caiff pob dogfen ei diweddaru ar y cam adolygu blynyddol. Caiff pob protocol clinigol ar y cyd ei ddiweddaru gan ddilyn rhaglen ddiweddaru dreigl bob mis a chaiff y gwaith ei gwblhau o fewn blwyddyn.	Rheolwr Llywodraethu Clinigol Radiotherapi Dirprwy Bennaeth Ffiseg Radiotherapi	Dogfen gyntaf i fod yn barod i'w chyhoeddi ym mis Ionawr 2024 Disgwyllir i bob protocol ar y cyd gael ei ddiweddaru erbyn 31 Gorffennaf 2024

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer treialon ymchwil yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 yn well yn y ddogfen Radiotherapi.	Rheoliad 11 (1)(d) Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)	Diweddaru'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn y ddogfen Radiotherapi er mwyn cynnwys trefniadau llywodraethu ar gyfer treialon ymchwil.	Rheolwr Llywodraethu Clinigol Radiotherapi	30 Tachwedd 2022
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adlewyrchu hawliau Oncolegwyr Clinigol yn well yng ngweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr lleol.	Rheoliad 6 (1)(a) ac Atodlen 2 (1)(b) i'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)	Diweddaru'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn y ddogfen Radiotherapi er mwyn cynnwys hawliau Oncolegwyr Clinigol yng ngweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr lleol.	Rheolwr Llywodraethu Clinigol Radiotherapi	30 Tachwedd 2022
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod Oncolegwyr Clinigol wedi darllen gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr sy'n berthnasol i'w rolau.	Rheoliad 6 (2) Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)	Gweithdrefn Weithredu Safonol i gael ei datblygu er mwyn diffinio'r broses ar gyfer monitro, cymryd camau dilynol perthnasol ac uwchgyfeirio unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio â'r Weithdrefn Weithredu Safonol.	Cyfarwyddwr Clinigol / Arweinydd Oncoleg Glinigol ar gyfer Radiotherapi	31 Hydref 2023

		Hyfforddiant ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) i gael eu symud i'r Cofnodion Staff Electronig er mwyn cynnig ffordd fwy dibynadwy a chadarn o fonitro cydymffurfiaeth.	Cyfarwyddwr Clinigol / Arweinydd Oncoleg Glinigol ar gyfer Radiotherapi	31 Hydref 2023
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiwygio gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr er mwyn dangos na chaniateir i ofalwyr neu gysurwyr aros gyda chleifion yn ystod unrhyw gysylltiadau meddygol.	Rheoliad 6 (1)(a) Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) Atodlen 2 (1)(n)	Diweddaru'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn y ddogfen Radiotherapi drwy ychwanegu datganiad i ddangos na chaniateir i ofalwyr neu gysurwyr aros gyda chleifion yn ystod unrhyw gysylltiad meddygol.	Rheolwr Llywodraethu Clinigol Radiotherapi	30 Tachwedd 2022
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiweddaru'r system electronig mewn da bryd pan fydd gwiriadau cyfarpar wedi'u cwblhau a dangos y rhesymeg pan wneir penderfyniad i ohirio gwiriadau blynyddol o gyfarpar.	Rheoliad 15 (3) Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)	Caiff proses wedi'i symleiddio ei sefydlu i sicrhau bod tasgau cyfarpar peirianeg yn cael eu cofnodi o fewn y system electronig mewn da bryd. Bydd hyn yn cynnwys ychwanegu blwch ticio syml.	Dirprwy Bennaeth Ffiseg Radiotherapi	31 Hydref 2023
		Caiff y weithdrefn sicrhau ansawdd ar gyfer peiriannau ei diweddaru er mwyn cynnwys y	Dirprwy Bennaeth Ffiseg Radiotherapi	31 Hydref 2023

		broses y dylid ei dilyn pan benderfynir aildrefnu gwaith cynnal a chadw a rheoli ansawdd ataliol a drefnwyd. Os penderfynir aildrefnu gwasanaeth neu adolygiad rheoli ansawdd a drefnwyd, yna caiff yr adolygiad neu'r gwasanaeth ei drefnu ar gyfer y dyddiad rhesymol ymarferol cynharaf. Bydd hyn yn sbarduno consesiwn a godir yn System Rheoli Ansawdd Q-Pulse a fydd yn cynnwys y cyfiawnhad dros ohirio.		
Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i drwsio'r rhannau o'r llawr sy'n amlwg wedi'u difrodi neu wedi treulio ac sy'n peri perygl, neu osod llawr newydd yn eu lle.	Safon - Diogel	Yr Adran Ystadau i chwilio am beryglon ar yr holl lorïau a sicrhau eu bod yn ddiogel.	Rheolwr Ystadau	30 Awst 2023
Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi sicrwydd i'r staff y bydd y sefydliad yn ymdrin â'r	Safon - Diogel	Creu grŵp ffocws ymatebol i drafod pryderon y staff pan fyddant yn codi a mynd i'r afael â nhw. Caiff pryderon diogelwch sydd y tu hwnt i'n rheolaeth yn	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi Cyfarwyddwr Clinigol	30 Awst 2023

pryderon a godir ganddynt am arferion anniogel.		cael eu huwchgyfeirio a rhoddir ymatebion amserol i'r staff.	Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	
		Diogelwch seicolegol ac adrodd diogel i gael eu cynnwys ar agendâu pob cyfarfod staff.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi Cyfarwyddwr Clinigol Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	30 Awst 2023
		Nodwyd bod blaenoriaeth arweinyddiaeth Gofal Diogel ar y cyd yr Ymddiriedolaeth yn gwella diogelwch seicolegol ar draws yr Ymddiriedolaeth. Elfen o hyn yw meithrin diwylliant adrodd cadarnhaol.	Tîm Gweithredol	Dechreuodd rhaglen hirdymor i newid diwylliant ym mis Ebrill 2023
Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r sylwadau llai ffafriol gan y staff a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.	Safon - Y Gweithlu	Pob disgyblaeth i adolygu holl sylwadau'r staff ar yr adroddiad, ystyried y safbwyntiau gwahanol a nodi unrhyw gamau dilynol cysylltiedig os nad ymdrinnir â'r mater eisoes mewn cynlluniau gwaith presennol.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	30 Awst 2023
		Sefydlu grŵp tîm amlldisgyblaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tair disgyblaeth	Cyfarwyddwr Clinigol	30 Medi 2023

		er mwyn ymdrin â sylwadau, diwygio prosesau a thrafod adborth i staff. Llunio cynllun gweithredu i ddechrau ar unwaith sy'n adlewyrchu gwahaniaethau i grwpiau gwahanol o staff.	Pennaeth Ffiseg Radiotherapi Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	
		Mynd i'r afael â chamau gweithredu penodol o fewn adrannau personol fel y bo'n briodol.	Cyfarwyddwr Clinigol Pennaeth Ffiseg Radiotherapi Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Holl ganlyniadau'r camau gweithredu i gael eu cwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2023
Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i recriwtio i'r rolau Arweinydd Clinigol, Arweinydd Proffesiynol a Rheolwr a Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Radiotherapi.	Safon - Arweinyddiaeth	Swyddi'r Rheolwr a'r Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Radiotherapi yn cael eu gwerthuso ar gyfer disgrifiadau swydd a phroses recriwtio weithredol. Diweddarau a chwblhau'r dull gweithredu mewn perthynas ag arweinyddiaeth glinigol er mwyn sicrhau bod rolau arweinyddiaeth broffesiynol yn gadarn, yn	Pennaeth Gwasanaeth Ymbelydredd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Canser	30 Awst 2023 30 Hydref 2023

		ddigonol ac wedi'u cydlynu'n gyson.		
Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella swm y wybodaeth a gaiff ei harddangos neu sydd ar gael, fel bod y cleifion yn gwybod sut i wneud cwyn ac yn ymwybodol o sefydliadau eraill y gallant gysylltu â nhw i gael cymorth a chyngor.	Safon - Diwylliant	Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Thîm Ansawdd a Diogelwch Felindre i wella mynediad at CIVICA. Trafodaethau yn mynd rhagddynt ynghylch cynyddu maint/mynediad y sgrin gyffwrdd yn nerbynfa'r adran Radiotherapi. Mae'n bosibl y caiff ail sgrin ei gosod yn yr ardal cyn cael triniaeth er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i roi adborth.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	30 Hydref 2023
		Datblygu a chyhoeddi taflen wybodaeth ddiwygiedig i gleifion ynghylch rhannu teimladau, barn a phryderon.	Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Radiotherapi	1 Awst 2023
		Sicrhau bod y daflen ar gael ar bob pwynt cyswllt llwybr y claf yn yr adran Radiotherapi.	Rheolwr Llywodraethu Clinigol Radiotherapi	1 Awst 2023
		Poster ar sut i fynegi pryder i gael ei ddatblygu ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gyfan a'i ddarparu i bob adran.	Pennaeth Ansawdd a Diogelwch	31 Awst 2023

		Adolygu cyfleoedd i arddangos poster yr Ymddiriedolaeth ar sut i fynegi pryder ym mhob rhan o'r gwasanaeth ac mewn sefydliadau priodol eraill, yn enwedig Llais.	Rheolwr Llywodraethu Clinigol Radiotherapi	30 Awst 2023.
Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella'r wybodaeth sydd ar gael am y ffordd y mae'r adran wedi gweithredu ar adborth a gafwyd gan gleifion.	Safon - Diwylliant	Rydym wedi adolygu'r ardal lle mae'r hysbysfwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'. Byddwn yn gwneud yr ardal hon yn fwy ac yn datblygu byrddau arddangos mawr ac yn adolygu cyhoeddiadau mewn amrywiaeth o ieithoedd ar ôl asesu dosbarthiad iaith y boblogaeth.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	30 Medi 2023
Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella ymwybyddiaeth y staff o'r system ar gyfer ceisio adborth cleifion.	Safon - Diwylliant	Rheolwr Llywodraethu Clinigol Radiotherapi i weithio gyda'r Radiograffydd Gwybodaeth a Chymorth a grŵp cymorth i gleifion yr adran radiotherapi er mwyn gwella ymwybyddiaeth y staff o'r system. Rhennir hyn â'r staff drwy sesiynau rhannu gwybodaeth wedi'u targedu, gan gwmpasu sut rydym yn casglu adborth gan gleifion, sut rydym	Rheolwr Llywodraethu Clinigol Radiotherapi	1 Rhagfyr 2023

		yn ymateb iddo a pham mae hyn mor bwysig.		
		Cyhoeddi taflen ddiwygiedig i gleifion ynghylch rhannu teimladau, barn a phryderon a'i rhannu â'r staff drwy ddiweddariad wythnosol yr adran Radiotherapi, gan gynnwys sut i gael gafael ar y wybodaeth hon a'i rhannu â'r cleifion.	Rheolwr Llywodraethu Clinigol Radiotherapi	1 Awst 2023
		Adborth cleifion i gael ei drafod ym mhob cyfarfod staff yr adran radiotherapi, a'i rannu drwy gyfarfodydd adrannol ac arweinwyr Tîm Penodol y Safle.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Radiotherapi Cyfarwyddwr Clinigol	30 Hydref 2023

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Nicola Williams

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Ofal Iechyd a Gwyddonwyr Meddygol

Dyddiad:

14/07/23